OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 691

# Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

## RHAN 3

## Cyflenwyr

**Cofrestr o gyflenwyr**

**13.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o gyflenwyr cofrestredig.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cyflenwr;

(b) pa rai o blith y gweithgareddau a restrir ym mharagraff (3) y mae'r cyflenwr yn ymwneud â hwy;

(c) y genera neu'r rhywogaethau o dan sylw;

(d) cyfeiriad y fangre lle cyflawnir y gweithgaredd;

(e) rhif cofrestru'r cyflenwr.

(3) At ddibenion paragraff (2)(b), y gweithgareddau yw atgynhyrchu, cynhyrchu, cadw, trin, mewnforio neu farchnata deunyddiau planhigion.

(4) Rhaid i gyflenwr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol am unrhyw newid i'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(a) i (d).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r gofrestr, neu unrhyw ran ohoni, yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.